*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1761 (Cy.166)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Llysfasi College (Diddymu) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Gorffennaf 2010* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *8 Gorffennaf 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Awst 2010* |

Gwneir y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru(**2**).

Yn unol ag adran 27(2) o'r Ddeddf honno, mae Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Glannau Dyfrdwy (Deeside College Further Education Corporation)(**3**) wedi cydsynio â throsglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Llysfasi College(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chorfforaeth Addysg Bellach Coleg Llysfasi College yn unol ag adran 27(7) o'r Ddeddf honno.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Llysfasi College (Diddymu) 2010 a daw i rym ar 1 Awst 2010.

---

(**1**) 1992 p.13; diwygiwyd adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 gan erthygl 9 o Orchymyn Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (Trosglwyddo Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Diddymu'r Cyngor) 2005 a pharagraffau 13 ac 16(a)-(c) o Atodlen 1 iddo (O.S. 2005/3238); gan adran 29 o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 (p. 25) a pharagraffau 6 ac 8 o Atodlen 1 iddi; gan adran 30 o Ddeddf Addysg Bellach a Hyfforddi 2007 ac Atodlen 2 iddi ond ar adeg gwneud y Gorchymyn hwn nid oedd y darpariaethau hynny wedi eu cychwyn; a chan erthygl 2 o Orchymyn Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru a Lloegr) 2010 a pharagraffau 18 ac 19 o Atodlen 1 iddo (O.S. 2010/1080).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 27 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) Sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1993 (O.S. 1993/97).

(**4**) Sefydlwyd gan Orchymyn Addysg (Corfforaethau Addysg Bellach) 1992 (O.S. 1992/2097).

**Diddymu a Throsglwyddo**

**2.** Ar 1 Awst 2010 fe ddiddymir Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Llysfasi College a throsglwyddir ei eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau i Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glannau Dyfrdwy (Deeside College Further Education Corporation), sef corff corfforaethol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â darparu cyfleusterau neu wasanaethau addysgol.

**Trosglwyddo Staff**

**3.** Mae adran 26(2), (3) a (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn gymwys i unrhyw berson a gyflogid gan Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Llysfasi College yn union cyn 1 Awst 2010 fel pe bai'r cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno'n gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson a gyflogid felly;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 1 Awst 2010;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Llysfasi College; ac

(ch) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Glannau Dyfrdwy (Deeside College Further Education Corporation).

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

6 Gorffennaf 2010

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r gorfforaeth addysg bellach a sefydlwyd i gynnal y sefydliad addysgol o'r enw Coleg Llysfasi College ac yn cael effaith o 1 Awst 2010. Mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo'i eiddo, ei hawliau a'i rwymedigaethau i Gorfforaeth Addysg Bellach Glannau Dyfrdwy (Deeside College Further Education Corporation) ac yn sicrhau hawliau ei chyflogeion drwy gymhwyso, gydag addasiadau, adran 26(2) i (4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13).